Senedd Cymru / Welsh Parliament
Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE / Post-EU funding arrangements
PEU 16 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Welsh Local Government Association

WLGA

27 Ebrill 2022

# Ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Senedd i Drefniadau Cyllid Ôl-UE

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'r 22 cyngor yng Nghymru i gyd yn aelodau o CLILC ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Rydym ni'n credu bod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â'u cynghorau drwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi, hwyluso a chyflawni'r cysylltiadau hyn, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n caniatáu i gymunedau ffynnu.

**Prif nod y Gymdeithas yw** hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

**Mae hyn yn golygu:**
- Hyrwyddo rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r disgresiwn lleol mwyaf mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu yn effeithiol

## <u>Cyflwyniad</u>

1. Mae CLILC yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i drefniadau Cyllid Ôl-UE a'r cyfle i roi tystiolaeth.

2. Mae Llywodraeth Leol wedi bod yn bartner allweddol wrth gynllunio a darparu Rhaglenni a Gyllidir gan yr UE am dros 20 mlynedd, gan weithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol o'r trydydd sector a'r sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach i ddatblygu rhaglenni penodol i Gymru.

3. Mae cynghorau ar hyd a lled Cymru wedi cael budd o nifer o wahanol raglenni, yn fwy diweddar Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop), Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

4. Mae cynghorau a chymunedau wedi cael budd uniongyrchol o raglenni'r UE, sydd wedi ariannu prosiectau penodol ar draws ystod o ymyriadau, o adfywio canol trefi, eu cymunedau trefol, gwledig ac arfordirol i gefnogi pobl i gael mynediad at gyfleoedd gwaith.

5. Mae cynghorau ar draws Cymru hefyd wedi cael budd o raglenni a phrosiectau a gyllidir gan yr UE sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau partner eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, colegau addysg bellach, prifysgolion, y trydydd sector a'r sector preifat. Ymhlith enghreifftiau mae rhaglenni cymorth i fusnesau, prentisiaethau, marchnata twristiaeth a phrosiectau amgylcheddol.

6. Mae hyn yn golygu fod cynghorau ar draws Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y mwyaf o gyfleoedd o'r rhaglenni cyllid y DU newydd, gan adeiladu ar eu holl brofiadau o gynllunio a darparu prosiectau gyda phartneriaid allweddol o'r sector cyhoeddus ehangach, y trydydd sector, y sector preifat a'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach.

7. Oherwydd y cefndir hwn, mae cynghorau mewn sefyllfa dda hefyd i arwain, rheoli a chydlynu'r Rhaglenni Cyllid y DU newydd. Maent wedi bod yn cydweithio gyda 4 Rhanbarth Economaidd Cymru am nifer o flynyddoedd ar ddatblygiad economaidd allweddol, adfywio a mentrau cyflogaeth a sgiliau. Arweiniodd hyn at ddatblygiad y 4 Bargen Ddinesig a Thwf, gyda phob cyngor yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu ymyriadau economaidd allweddol ar hyd a lled Cymru.

**Cynnydd wrth sefydlu a darparu cronfeydd newydd yn lle cronfeydd strwythurol yr UE, yn cynnwys**:

- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
- Y Gronfa Adnewyddu Cymunedol; a
- Chronfa Codi'r Gwastad

8. Mae teimlad mewn llywodraeth leol bod y cynnydd hyd yma wedi bod yn weddol araf wrth gynllunio, datblygu a lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

9. Er bod CLILC, ynghyd â chymdeithasau llywodraeth leol Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi bod yn rhan o drafodaethau gydag Adran Llywodraeth y DU ar gyfer Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau dros y 3 blynedd diwethaf, dim ond yn ystod y misoedd diweddar y mae ymgysylltu mwy ystyrlon wedi digwydd ac mae trafodaethau wedi dwysau yn ystod yr wythnosau diwethaf cyn lansiad ffurfiol y Gronfa ar 13 Ebrill.

10. Roedd CLILC yn croesawu'r cyfle i roi mewnbwn i ddatblygiad y Gronfa, er y byddai ymgysylltiad cynharach a mwy manwl wedi cael ei werthfawrogi. Mae hefyd yn anffodus bod llawer o'r manylion wedi dod allan yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, sy'n golygu ei fod yn arbennig o anodd i sicrhau bod pob arweinydd cyngor yn gallu ymgysylltu yn y broses.

11. Fel gyda Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU a Chronfa Codi'r Gwastad y DU, mae awdurdodau lleol yn bryderus o'r amser a ganiatawyd i gynllunio, datblygu a darparu prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r amserlenni yn hynod o heriol, heb y gallu i symud arian o un flwyddyn ariannol i'r llall. Mae hyn yn gwbl groes i'r hyblygrwydd a roddwyd gan Raglenni Cyllid yr UE aml-flynyddol oedd yn galluogi eu darparu dros gyfnod o 10 mlynedd.

12. Rydym yn croesawu'n fawr iawn y penderfyniad i ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn seiliedig ar ddyraniadau yn hytrach nag ar sail gystadleuol gan fod natur gystadleuol y Gronfa Adnewyddu Gymunedol a Chronfa Codi'r Gwastad yn wastraffus yn ei hanfod.

13. Ystyrid y Gronfa Adnewyddu Gymunedol fel rhagflaenydd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond gan ei bod bellach wedi ei hymestyn, nid yw'n amlwg bod y gwersi a ddysgwyd o'r Gronfa Adnewyddu Gymunedol wedi llywio datblygiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin, heblaw am y penderfyniad i'w darparu ar sail dyraniadau.

14. Nid yw Cronfa Codi'r Gwastad wedi dod yn uniongyrchol yn lle Cronfeydd Strwythurol yr UE gan ei bod, yng Nghymru, yn Gyllid Canlyniadol Barnett yn deillio o Gronfeydd Trefi Lloegr.

15. Mae disodli Rhaglenni Cyllid yr UE â Rhaglenni Cyllid y DU wedi creu heriau newydd i lywodraeth leol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan lywodraeth leol yn Lloegr hanes a phrofiad hirach o weithio gyda Gweinidogion a Swyddogion yn Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd, mae llywodraeth leol o fewn yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau a chyn hynny roedd dan y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae sefydlu a meithrin perthnasoedd newydd gyda Gweinidogion a swyddogion mewn Adran oedd yn draddodiadol yn gweithio'n bennaf gyda chynghorau yn Lloegr, wedi ei gwneud yn fwy o her i gynghorau yn y gwledydd datganoledig. Ond mae perthnasoedd wedi bod yn dda er hynny gyda swyddogion Llywodraeth y DU yn gweithio ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae'r rhain yn datblygu.

**Sut mae'r cyllid a gynigir i Gymru a'r cyllid a dderbyniwyd drwy barhad y DU yn rhaglenni'r UE, yn cymharu â'r cyllid a dderbyniwyd pan oedd y DU yn aelod o'r UE**

16. Mae math a lefel y cyllid yn lle cyllid yr UE a gyhoeddwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU hyd yma yn wahanol mewn sawl ffordd i'r cyllid a arferai Cymru ei gael o Raglenni'r UE.

17. Mae'r math o gyllid a gyhoeddwyd ar gyfer y Gronfa Adnewyddu Gymunedol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, sef refeniw yn bennaf, yn debyg i'r math o gyllid y mae Cymru wedi'i gael o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau ac ymyriadau cyflogaeth. Er bod rhywfaint o gyllid cyfalaf yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'n fach iawn o'i gymharu â'r cyllid a gafodd Cymru o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer buddsoddiad mewn isadeiledd, adfywio ffisegol a chymorth busnes. Er bod mwy o gyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu drwy Gronfa Codi'r Gwastad, nid yw'n newydd nac yn disodli cyllid yr UE gan ei fod yn Gyllid Canlyniadol Barnett i Gymru yn gysylltiedig â disodli'r Gronfa Trefi yn Lloegr gan Lywodraeth y DU.

18. Ymddengys nad oes unrhyw gyllid yn lle cyllid yr UE oedd Cymru yn arfer ei gael drwy Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop na'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

19. Mae CLILC wedi dadlau'n gryf o'r dechrau y dylai Cymru gael cymaint o leiaf o gyllid yn lle cyllid yr UE a fyddai wedi ei gael pe bai'r DU wedi parhau yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cyllid a gyhoeddwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU hyd yma ar gyfer 3 blwyddyn ariannol, yn llai na'r cyllid fyddai Cymru wedi ei gael pe bai'r DU yn dal yn yr UE. Pe bai'r DU wedi parhau yn yr UE, byddai Cymru bellach yn cael cyllid ar gyfer y 7-10 mlynedd nesaf dan Raglenni Cyllid newydd yr UE ar gyfer 2020-2027, gyda'r cyllid mwyaf yn dod o'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd, cyllid o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd ar gyfer amaethyddiaeth a datblygiad gwledig, cyllid o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd a'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol newydd. Byddai ein sefydliadau Pobl Ifanc ac Addysg yn parhau i elwa gan gyllid o'r Rhaglen ERASMUS+ a byddai ein Prifysgolion yn parhau i elwa o'r Rhaglen HORIZON Ewrop. Byddai'r holl gyllid hwn wedi bod yn ychwanegol, y tu hwnt i'r grant bloc, ac yn cael arian cyfatebol gan nifer o ffrydiau cyllido ar draws y sector cyhoeddus a phreifat.

20. Hefyd, mae dyraniad cyllideb y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y DU a Chymru yn llai na fyddai wedi bod, gan fod Llywodraeth y DU wedi ystyried y Cyllid UE sy'n weddill o Raglenni'r UE yn 2014-2020. Mae'r cyllid hwnnw, fydd yn parhau i gael ei dderbyn a'i wario hyd at 2023, wedi cael ei ddebydu gan Lywodraeth y DU wrth gyfrifo'r dyraniad.

21. Ar gyfer y DU gyfan, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i chynllunio i gynyddu o £0.4bn y flwyddyn ariannol hon i £0.7bn yn 2023-24 a £1.5bn yn 2024-25. Felly, yn hytrach na bod £4.5bn ar gael dros dair blynedd (£1.5bn y flwyddyn) bydd £2.6bn ar gael – gan adael bwlch o £1.9bn. I Gymru, dyraniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin hyd at 2024/25 (yn cynnwys cyllid ar gyfer menter rhifedd oedolion 'Lluosi' Llywodraeth y DU) yw £89m, £153m a £343m, cyfanswm o £585m. Yn 23% o gyfanswm y DU,[1] mae hyn yn amlwg yn gyfran dda sy'n adlewyrchu lefel yr angen yng Nghymru. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r arian y mae Llywodraeth Cymru wedi ei nodi y byddai Cymru wedi ei dderbyn gan yr UE mae'n £585m yn ogystal â £47m o'r Gronfa Adnewyddu Gymunedol y DU yn erbyn £1.404bn posibl - neu wahaniaeth o £772m. Hefyd, byddai rhaglen newydd yr UE wedi rhoi 7+3 mlynedd pellach o sicrwydd o gyllid, ond nid yw ymrwymiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn mynd ond i 2024/25.

**Y mecanweithiau a strwythurau sy'n cael eu sefydlu i weinyddu'r cyllid hwn yng Nghymru, rolau'r rhai sy'n rhan ohono, yn enwedig Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac effaith hynny ar drefniadau atebolrwydd.**

22. Mae CLlLC yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i ddyrannu'r cyllid hwn yn uniongyrchol i gynghorau fel y cyrff a etholwyd yn ddemocrataidd, sydd agosaf at y bobl maent yn eu gwasanaethu. Mae eu rôl arweinyddiaeth gymunedol yn golygu mai cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i arwain, rheoli a chydlynu'r ffrydiau cyllid newydd yn eu hardaloedd lleol, gan weithio gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn eu hardaloedd lleol, gan mai nhw sy'n adnabod eu hardaloedd orau.

23. Mae CLlLC hefyd yn croesawu'r anogaeth i gynghorau barhau i weithio gyda chynghorau cyfagos a'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ym mhedwar rhanbarth economaidd Cymru. Mae'r dull hwn sy'n cael ei arwain, ei reoli a'i gydlynu gan gynghorau, yn adlewyrchu ein gwaith fel rhan o ddatblygu'r *Fframwaith ar gyfer Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru,* gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae hefyd yn cydnabod bod cynghorau wedi bod y cydweithio am sawl blwyddyn yn y pedwar rhanbarth economaidd yng Nghymru ar ddatblygiad economaidd allweddol, adfywio, ymyriadau cyflogaeth a sgiliau.

24. Mae'n anffodus bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi methu â chytuno ar ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru. Mae CLlLC yn credu ein bod yn cyflawni ein canlyniadau gorau pan fydd pob haen o

[1]Mae hyn yn 23% o'r cyfanswm o £2.49bn a ddangosir yn nadansoddiad Llywodraeth y DU o ddyraniadau i'r pedair gwlad, yn hytrach na £2.6bn llawn y Gronfa.

llywodraeth yn cydweithio ac yn cydgysylltu. Byddwn, fodd bynnag yn ymdrechu i weithio gyda'r ddwy lywodraeth i sicrhau bod yr ymyriadau a ddatblygir fel rhan o'r Cynlluniau Buddsoddi ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at weithgareddau tebyg a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i wneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael ac osgoi bylchau mawr posibl mewn darpariaeth.

**Y cyllid gwaddol sy'n ddyledus i Gymru wedi i'r DU adael yr EU ac sy'n gysylltiedig â rhaglenni cronfa strwythurol yr UE.**

25. Mae'n gamarweiniol defnyddio'r term 'cyllid gwaddol' gan y gellir parhau i wario'r cyllid a ddyrannwyd i Gymru dan Raglenni'r EU 2014-2020 hyd at ddiwedd 2023 yn unol â'r rheol N+3. Nid yw'n gyllid newydd nac yn gyllid gwaddol.

26. Mae gwahaniaeth barn sylfaenol yn parhau rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig o ran a yw'r cyllid a ddyrannwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gyfartal â'r hyn fyddai wedi cael ei dderbyn pe bai'r DU wedi aros yn yr UE.

27. I bob pwrpas, mae Llywodraeth y DU yn debydu symiau'r cyllid y mae'r 4 gwlad yn parhau i gael dan drefniadau'r UE. Yn annatod, mae hyn yn is na'r ffigwr gros fyddai wedi cael ei dderbyn dan y rhaglenni cyllid EU presennol a newydd.

28. Mae llywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i herio'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU.

29. O ganlyniad fod methodoleg Llywodraeth y DU hefyd wedi cael ei ddefnyddio yn yr un modd ar gyfer ariannu ffermydd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cymunedau gwledig ar ei colled o £243m o'i gymharu os y byddai'r DU wedi aros o fewn yr UE.

30. Fel yr eglurwyd uchod, mae'r cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i Gymru wedi ystyried y cydbwysedd cyllid o raglenni Cronfa Strwythurol yr UE 2014-2020 felly mae'n llai na'r hyn fyddai Cymru wedi'i gael pe bai'r DU wedi parhau yn yr UE. Mae'r 'bylchau' cronedig o £772m mewn perthynas i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r diffyg o £243m yn y cyllid i amaethyddiaeth yn golygu cyfanswm terfynol o £1.015b, sef y diffyg y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddyfynnu.